# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2020

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones a R.Meirion Jones. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Uwch Swyddog Adnoddau Dynol (CW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Neb |

---

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2 **COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr, 2020.

3 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno."**

4 **APWYNTIO STAFF**

**Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol**

Derbyniwyd 3 chais am y swydd uchod.

Adroddodd y Prif Weithredwr fod y swydd wedi'i hysbysebu'n fewnol ac yn allanol am gyfnod o ddeunaw diwrnod. Bydd deilydd y swydd yn aelod o'r Uwch Dîm

Arweinyddiaeth a disgwylir iddo / iddi gyfrannu at nod y Cyngor o wella'n barhaus ac i darparu arweinyddiaeth, gweledigaeth a chyfeiriad strategol i'r Cyngor gyflawni ei flaenoriaethau a'i amcanion corfforaethol. Bydd swydd y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol yn arwain y rhaglen cynllunio lle trwy gydlynu swyddogaethau llesiant economaidd, amgylcheddol, twristiaeth a chymunedol, gan ysbrydoli llesiant, gwytnwch ac ymgysylltiad cymunedol fel y gellir datblygu cynlluniau llesiant lleol. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y swydd yn rôl arweinyddiaeth a strategol mewn gwasanaeth mawr yn yr Awdurdod.

Rhoddodd y Prif Weithredwr grynodeb o'r 3 chais a dderbyniwyd am y swydd ac argymhellwyd ailhysbysebu'r swydd. Roedd hi o'r farn y dylid parhau â rôl bresennol y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Dros Dro a'r dyletswyddau ychwanegol a gyflawnir gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r Rhaglen Cynllunio Lleoedd ac y dylid ailhysbysebu'r swydd Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol ym Mehefin 2020.

Roedd Aelod o'r Pwyllgor o'r farn y dylid ymestyn y cyfnod hysbysebu am gyfnod o fis. Nododd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid nad yw hysbysebu swyddi am fis yn drefn arferol a fabwysiadwyd gan weithwyr proffesiynol yn y maes AD ond pe bai'r Pwyllgor yn dymuno hysbysebu'r swydd am fis yna roedd modd gwneud hynny. Nodwyd hefyd na chafwyd unrhyw gostau hysbysebu oherwydd i'r swydd gael ei hysbysebu ar-lein.

**PENDERFYNWYD:-**

- **ailhysbysebu'r swydd Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol ym mis Mehefin 2020;**
- **y bydd swydd bresennol y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Dros Dro a'r dyletswyddau ychwanegol a gyflawnir gan y Pennaeth Gwasanaeth Tai mewn perthynas â'r Rhaglen Cynllunio Lleoedd yn parhau nes bod swydd y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol wedi'i llenwi.**

*(Roedd y Cynghorydd A M Jones yn dymuno cofnodi ei fod wedi ymatal rhag pleidleisio).*

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**